**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/10311/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi ynghylch deiseb P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes.

Mae iechyd a lles anifeiliaid, a pherchnogaeth gyfrifol anifeiliaid, yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i gynnal safonau lles uchel ar gyfer pob anifail a gedwir yng Nghymru ar bob cam o'u bywydau. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau i wella Lles Anifeiliaid yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn cael ei wneud.

Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021-26 cyn bo hir sy'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed yng Nghymru o ran lles anifeiliaid dros yr 16 mlynedd diwethaf. Yn ystod tymor y Llywodraeth hon, byddwn yn cyflwyno ystod eang o bolisïau i gynnal momentwm diwygio lles anifeiliaid a sefydlwyd ers datganoli'r pwerau perthnasol.

Rydym yn cydnabod y materion cymhleth a godwyd yn y ddeiseb Etifeddiaeth Rosa sy'n ymwneud â fforddiadwyedd gofal milfeddygol. Rydym hefyd yn cydnabod gwaith rhagorol gweithwyr milfeddygol proffesiynol yng Nghymru o ran cynnal a gwella iechyd a lles ein hanifeiliaid. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant ein Cynllun Lles Anifeiliaid ac rydym yn ddiolchgar am ein perthynas gref a hirsefydlog â sefydliadau'r trydydd sector, y mae llawer ohonynt yn parhau i gynnig cynlluniau i gefnogi'r rhai sy'n ei chael yn anodd cydbwyso gofynion perchnogaeth gyfrifol â chost gofal milfeddygol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau'r gwelededd a'r effaith fwyaf posibl ar gyfer y cynlluniau sydd ar gael, byddaf yn cyfarwyddo swyddogion eto i godi'r mater hwn gyda sefydliadau allweddol yn y trydydd sector i asesu a ellir gwneud mwy i gefnogi perchnogion anifeiliaid anwes yng Nghymru y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt.

Yn Gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**